PDF-XCHANGE Click to buy NOW! www.docu-track.com

# Pam cyfrannu?

Yn syml iawn - am ein bod eisau gwneud hynny!

Fedrwn ni ddim gorfodi neb i roi arian at waith yr eglwys. A does dim disgwyl i bawb allu rhoi yr un faint - wedi'r cwbl, mae amgylchiadau pawb yn wahanol.

Ond mae yna gyfrifoldeb ar bob aelod i gyfrannu yn ôl ei allu. Mae hynny'n golygu cyfrannu cymaint â phosibl, gan gofio faint sydd ei angen ar yr eglwys, a pham fod angen yr arian hwnnw.

Mae'r Beibl yn dweud wrthym am "gyfrannu yn ôl fel y llwyddodd yr Arglwydd ni". Mae hynny'n golygu ein bod yn cofio daioni Duw i ni, ac yn cyfrannu er mwyn dangos ein gwerthfawrogiad o'r pethau da a gawsom. Mewn gwirionedd, gall ein cyfrannu fod yn un ffordd o ddangos faint o feddwl sydd gennym o Dduw ac o'r Arglwydd Iesu Grist a'i waith trosom.

## Cyfrannu yn rheolaidd

Mae'r Beibl yn ddoeth iawn wrth annog pobl i gyfrannu'n gyson. "Rhowch heibio ar ddydd cyntaf yr wythnos". Mae rhai yn defnyddio'r amlenni a ddarperir gan y capel i wneud hyn, bob wythnos neu bob mis. Ond gellir hefyd drefnu archeb banc i gyfrannu'n rheolaidd o'ch banc os byddai hynny'n haws i chi.

## Rhodd Cymorth

Os ydych yn talu treth, gall yr eglwys gael mwy am eich arian trwy'r cynllun Rhodd Cymorth. Dim ond rhoi caniatad i'r Trysorydd sydd raid i chi ei wneud, ac fe gaiff y capel hawlio arian yn ôl oddi wrth Awdurdodau'r Dreth Incwm.

## Cyfrannu mwy

Y ffordd orau i gyfrannu mwy at waith yr eglwys yw gwneud hyn yn flaenoriaeth. Os mai o'r hyn sydd dros ben y cyfrannwn at yr eglwys, byd-dwn yn siwr o roi llai. Ond os cychwynnwn ni efo cyfrannu at yr eglwys, byddwn yn sicr o roi mwy. Mae'n dibynnu'n hollol ar beth sy'n cyfrif i ni. "Lle mae dy drysor, yno bydd dy galon hefyd".

**Gofalaeth Unedig**

**Deiniolen, Llanberis a Nant Peris**

# Arian Duw

Cyfrannu
at yr eglwys
heddiw

PDF-XCHANGE Click to buy NOW! www.docu-track.com

# Arian

**Angen.** Mae'n anodd iawn gwneud heb arian heddiw. Bwyd, dillad, car, ty, trethi, teganau, llyfrau, gwyliau, biliau - mae angen arian at rywbeth bob munud!

**Dyledion.** Mae popeth mor ddrud, ac arian mor brin. Mae cymaint o bobl dros eu pen a'u clustiau mewn dyled, efo'r morgais a'r cardiau credyd a'r cynigion "prynu rwan a thalu eto".

**Gofynion.** Ac mae yna gymaint o achosion da yn dod ar ein gofyn: yn lleol yn ein pentref ac yn genedlaethol a ninnau'n gwneud ein gorau i'w cefnogi.

**Y Capel.** Does dim rhyfedd nad oes gan bobl lawer o arian wrth gefn. Ac ar ben pob peth, mae angen rhoi arian at waith y capel! Mae llawer yn rhoi yn llawen wrth gwrs, ac mae llawer hefyd yn methu'n glir â deall pam fod y capel angen arian o gwbl!

# Lle cawn ni bres?

## "Pres y capel"

Mae'n rhaid cael arian i gynnal gwaith eglwysi'r ofalaeth hon fel pob gofalaeth arall. Ond o ble daw'r arian? O bocedi'r aelodau! Cyfraniadau'r aelodau sy'n cynnal y gwaith. Ni chawn arian oddi wrth yr enwadau. Yr eglwysi lleol sy'n cyfrannu at yr enwadau, ac nid fel arall.

## Oes yna ddigon?

Nac oes, gwaetha'r modd. Mae arian yn brin yn y capeli, ac mae 2 reswm syml am hyn:

- mae'r costau yn cynyddu bob blwyddyn
- mae yna lai o aelodau yn y capel

## Yr angen

Heb arian, mae'n amhosibl i ni gynnal gwaith yr eglwysi fel a wneir ar hyn o bryd. Edrychwch ar y golofn nesaf i weld pam fod angen arian arnom.

## Yr ateb

Un ateb sydd i'r angen hwn mewn gwirionedd, sef ein bod ni fel aelodau yn cyfrannu'r arian. Ni allwn ddisgwyl i neb arall dalu am waith yr eglwys.

# Gwario'r arian

## I ble mae'r pres yn mynd?

Mae angen pob ceiniog a gawn ni - a mwy - er mwyn cynnal gwaith yr eglwysi. Dyma sut y caiff yr arian ei ddefnyddio.

**1 Cyflog ein Gweinidog** - Yr arian a gyfrannwn ni fel aelodau sy'n talu cyflog ein Gweinidog. Nid yw'r cyflog yn dod o gronfa genedlaethol yr enwadau.

**2 Pregethwyr y Sul** - mae angen talu'r pregethwyr sy'n gwasanaethu pan yw'r Gweinidog yn eglwysi eraill yr Ofalaeth.

**3 Yr adeiladau** - gwres, golau, cynnal a chadw, yswiriant, ac unrhyw waith trwsio: rhaid talu am y pethau hyn hefyd.

**4 Yr enwadau** - mae'r Annibynwyr yn cyfrannu at Undeb yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid yn cyfrannu at Eglwys Bresbyteraidd Cymru er mwyn cynnal gwaith yr enwadau.

**5 Costau eraill** - cyfrannu at ambell i elusen, prynu defnyddiau ac offer.